

Enw'r Myfyriwr: Siôn Storm-McBean

Rhif P: 1802746

Rhaglen Astudio: BA Illustration

Modiwl: ADAD5004C

Geiriau Allweddol: Plentynnaidd, Manwl, Cymeriadau

Tiwtor: Louise Burston a Gwenllian Beynon

Cyfrif Geiriau: 2,429

## **Plentynnaidd, Manwl, Cymeriadau**

Y pwnc dwi'n mynd i siarad am yw angenfilod yn darlunio, dwi di ddewis y pwnc yma achos ers oedd fi'n rownd pump neu chwe blwydd oed gyd dwi galli gofio paentio a braslunio oedd angenfilod o fy ymennydd. Angenfilod di troi mewn i rywbeth eithaf mawr yn fy mywyd enwedig gyda'r fath o waith dwi'n creu. Dwi'n mynd i sôn am dri gair allweddol sy'n cynrychioli'r darnau mwyaf gyda darlunio angenfilod plentynnaidd, manwl a chymeriadau.


## **Plentynnaidd**

When you describe the behaviour[sic] of an adult or an older child as childish, you mean the person is behaving in a foolish way that is typical of a young child's behaviour[sic]. (Cambridge Dictionary, 2020)

Y gair plentynnaidd fel arfer ddim yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gadarnhaol i ddisgrifio rhywbeth neu rywun, ond y ffordd dwi'n defnyddio'r gair yw mewn ffordd i ddisgrifio'r ochr mwy cartwnaidd a mwy cyfeillgar am deuluoedd. I fod yn ddarlunydd mae angen fod mewn cysylltiad gyda'r ochr plentynnaidd nhw, mewn rhyw ffordd. Y ffordd fwyaf hawdd i fod yn greadigol yw cael yr ochr plentynnaidd ti i gymrid dros achos hyn yn ffordd bydd syniadau yn dechrau dod i ti lot fwy haws. Wrth gwrs os oedd yn cadw at ddefnyddio'r ochr plentynnaidd bydd yn defnyddio lliwiau llachar a hefyd lliwiau ysgafn, ond byddwch yn cael yr edrychiad o gartŵn i ryw raddau.

Pan mae'n dod i angenfilod yn y steil mwy plentynnaidd, mae'n cael ei defnyddio mewn ffordd lle nhw'n cael edrychiad mwy ciwt neu fwy minimalaidd. Achos yr edrychiad mae'n cael nhw'n fel arfer yn cael ei defnyddio fel cymeriadau am frandio, sioeau teledu neu am ffilm.

Yn ffigur 1 bydd yn gweld darn o waith o ddarlunydd ar *Instagram* o'r enw Ketnipz. Ketnipz yn enghraifft dda o ddarlunydd sydd di greu cymeriad sy'n cael yr edrychiad o ryw fath o anghenfil plentynnaidd ac mae o di troi o mewn i frand eithaf mawr. Mae'n cael dros 1.5 miliwn o ddilynwyr ar *Instagram* (2020) a gyd mae'n wneud yw liniau a stribedi cartŵn o'r cymeriad yma mewn senarios sy'n ddoniol mewn steil sy'n berffaith am bob oed enwedig gyda phlant. Dwi'n sôn am y darlunydd yma achos os ydw i'n edrych ar ffigur 1 mae'n defnyddio testun sydd galli wneud i bobl cael teimlad negyddol ond mae o di greu darlun mewn ffordd mae pobl galli gael gwen ar eu hwyneb a hyn i gyd yn defnyddio un cymeriad sydd mewn rhyw ffordd yn anghenfil sy'n bihafio fel person. Y pwynt olaf i ddod gyda Ketnipz yw mai o wedi greu brand gyda'r cymeriad yma, mae'n gwerthu crysau t a mygiau (Ketnipz.com 2020) achos nid jyst y steil mae'n defnyddio ond y cymeriad ei hun yn apelio i farchnad mawr achos mae'n wahanol ac mae'n dangos angenfilod mewn ffordd bositif.



Ffigur 2, Ketnipz, (2019) *Heb Deit!* [Digidol] (Instagram).

Ketnipz ddim y person cyntaf i greu brand o gwmpas cymeriad achos mae'n dod mewn gwahanol ffurfiau un enghraifft yw cwmnïoedd fel *Compare The Market* yn defnyddio Meerkats sy'n dod o Rwsia neu *Duracell* sy'n defnyddio cwningen, mae 'na lot mwy mas na

ond mae'n farchnad nid lot o ddarlunwyr di dewis targedi enwedig gyda chymeriad sy'n edrych tipyn bach fel anghenfil a hyn sy'n helpu o sefyll allan, mae'n targedi farchnad neb yn wir yn targedi ac mae'n defnyddio'r steil plentynnaidd sydd di adio i'r nifer o bobl mae'n targedi sy'n wneud i'r cymeriad yma mor poblogaeth.

Un peth dwi heb di sôn am yw darlunydd fel Ketnipz a sut nhw'n cadw mewn cysylltiad gyda'r ochr plentynnaidd nhw. Y ffordd fwyaf hawdd i ateb hyn yw nhw'n gwylio cartwnau fel *Adventure Time*, *The Regular Show* neu *Gumball*. Ffordd arall yw i chwarae gemau nhw di chwarae pam oeddent nhw'n blant, ond rhain ddim yn ffordd sy'n gweithio am bawb.

Yn ffigur 2 mae 'na ddarlun digidol o ddarlunydd o'r enw AJ Jefferies. Y darn o waith yma oedd darn o'r Monster project, yr Monster Project yn lle 134 o artistiaid yn cael anfon llun o angenfilod wneith plant di creu a'r artistiaid yn ail creu nhw yn y steil nhw i helpu'r plant i adnabod y pŵer o greadigrwydd y dychymyg nhw ac i obeithio annog nhw i drio dilyn eu potensial creadigol nhw. Dwi galli jyst defnyddio unrhyw un o'r darnau o waith wneith dod mas o'r Monster Project achos nhw i gyd yn cynrychioli'r ochr plentynnaidd o wneud darlun o anghenfil mewn steil plentynnaidd achos nhw di cymryd ysbrydoliaeth am y darn o waith syth o blant sydd y ffordd gorau i wneud o, enwedig gydag angenfilod achos pam ti'n blant ti galli fod yn mor greadigol a dod lan gyda'r pethau mwy ar hap, os dwi'n cael problem gyda trio meddwl am rywbeth newydd i greu dwi'n mynd nôl i'r brasluniau fi o pam oedd fi'n fach.



Ffigur 2, Jeffries, A. (2019) *Monster Project 2019* [Digidol] (The Monster Project).

I orffen bant, mas o'r gair plentynnaidd y geiriau allweddol sydd di ddod allan o hon yw brandio, dychymig, a hefyd un o'r geiriau allweddol dwi'n mynd i sôn am yw cymeriadau sy'n dangos y cysylltiau yn barod o'r geiriau dwi wedi dewis.

### **Manwl**

Giving a lot of information with many details. (Cambridge Dictionary, 2020).

Y rheswm dwi di ddefnyddio'r gair Manwl am un o'r geiriau allweddol yw mae'n air sy'n disgrifio'r ochr o angenfilod yn darlunio dwi heb di sôn amdano. Pam dwi'n dweud yr ochr mwy manwl dwi ddim jyst sôn am y darnau o waith sy'n cael lot a manylder yn y llun ei hun ond hefyd y darnau sy'n cael haenau iddyn nhw. Y disgrifiad o'r gair yn sôn am lot o wybodaeth

fanwl a rhai o weithiau byddwch chi ddim yn meddwl bod hyn ddim yn cael ei ystyried gyda darlunio neu gelf ond mewn un darn o waith y nifer o wybodaeth ti galli roi mewn i o yn eithaf uchel lawr i'r holl farciau ti di wneud i'r negeseuon tu ôl i'r darn.

Gydag angenfilod y lle gorau i ddechrau yw gydag awduron sy'n arbenigol gydag ysgrifennu straeon am angenfilod. Yn 1818 wneith Mary Shelley ysgrifennu'r stori *Frankenstein* (1823), y stori yma wedi ysbrydoli holl fath o ddarnau o waith i wneud gydag arswyd ac angenfilod. Y rheswm dwi'n sôn am y llyfr yma yw'r disgrifiad o *Frankenstein's Monstor* a sut ydy hi di gwreichioni'r dychymyg pobl gyda'r disgrifiad manwl o un o'r angenfilod mwyaf gwaradwyddus.

His limbs were in proportion, and I had selected his features as beautiful. Beautiful! Great God! His yellow skin scarcely covered the work of muscles and arteries beneath; his hair was of a lustrous black, and flowing; his teeth of a pearly whiteness; but these luxuriances[sic] only formed a more horrid contrast with his watery eyes, that seemed almost of the same colour as the dun-white sockets in which they were set, his shrivelled complexion and straight black lips. (Shelly, M, 1994, t. 34)

Mae'n disgrifio *Frankenstein* (1823) mewn ffordd sy'n trio gwneud i ti teimlo yn anghyfforddus sy'n helpu'r darllenwr creu'r ddelwedd flinderus o *Frankenstein* (1823) yn yr ymennydd. Hyn yw beth sydd di ysbrydoli cymaint o awduron, artistiaid a chreawdwyr ffilm i

greu'r straeon, darnau celf a llyfrau mwyaf eiconig i wneud gydag angenfilod. Mae 'na awduron arall sydd yn yr un lle a Mary Shelly un enghraifft yw H.p. Lovecraft gyda straeon fel *The Whisperer in Darkness* (1931), *The Rats in the Walls* (1924) ac wrth gwrs *The Call of Cthulhu* (1928). Y rheswm dwi di sôn am awduron yw bod nhw di agor lan y dychymig pobl i'r potensial mae angenfilod galli fod gyda'r straeon nhw a'r maint o fanylder nhw di rhoi mewn i'r disgrifiad o'r angenfilod nhw di creu.

Gyda'r ochr darlunio gyda'r gair yma dwi'n edrych at ddarnau o waith o ddarlunwyr sy'n rhoi lot o fanylder yn y gwaith nhw ac sy'n defnyddio angenfilod. Darlunwyr o'r enw Christopher Lovell yn defnyddio manylder yn ei gwaith i greu darluniadau eithaf realistig. Mae'n rhan fwyaf o'r amser yn defnyddio angenfilod sy'n cael ansoddau bod dynol iddyn nhw. Mae'n cael disgrifiad o artist cerddorol, sydd meddwl bod o yn creu darnau sy'n cael eu hysbrydoli gan gerddoriaeth sy'n adio haenau i'r darnau achos y gerddoriaeth yn cael neges ei hun i fwrdd o'r darn o waith mae o di creu.



Ffigur 3, Lovell, C. (N/A) *Euryale* [Inc & Paint] (Christopher Lovell)

Yma yn ffigur 3 mae'n enghraifft o'r fath o ddarnau o waith mae Lovell yn creu a hefyd mae'n enghraifft o beth mae darn o waith sy'n cael lot o fanylder galli edrych fel a bod ti galli greu darn o waith sy'n dangos angenfilod fel rhywbeth cain a gwirion ond dal dangos yr ochr tywyll iddyn nhw. Achos dwi'n sôn mwy am angenfilod yn darlunio dwi angen sôn am y faith bod rhan fwyaf o'r amser y darnau ti'n gweld sy'n cael lot o fanylder ac yn cynnwys anghenfil fel arfer yn dangos yr anghenfil fel rhywbeth dyle ti cael ofn arno a ti byth yn gweld nhw mewn ffordd fwy positif, hyn yw pam dwi di ddewis y gwaith Lovell, achos Mae'r gwaith yn eithaf tywyll ond mae'n cael rhyw fath o ansawdd iddyn nhw sy'n wneud i o gael yr ochr gwirion iddyn nhw, ydy bod o ddim yn hollol bositif i angenfilod ond nhw ddim yn hollol yn dy wyneb am yr ochr tywyll.

Yn gasgliad yn y gair manwl y geiriau sydd di ddod lan eithaf tipyn i fi yw tywyll, ysbrydoliaeth a dychymig rhain yn amlwg geiriau dwi galli edrych fwy mewn i yn y dyfodol, hefyd mae 'na gysylltiau mewn ffordd gyda'r geiriau yma gyda'r ddau air allweddol wnaeth i ddewis i sôn am.

### **Cymeriadau**

Y gair cymeriadau yn air eithaf un dimensiwn achos gyd mae o yw gair am rywun neu rywbeth mewn stori. Dwi ddim mynd i edrych mewn i holl fath o gymeriadau dwi'n mynd i edrych at gymeriadau sy'n angenfilod ond mae'n dangos yr ochr tywyll nhw a'r ochr mwy positif. Mae'n amlwg lle dyle fi dechrau gyda chymeriadau sy'n angenfilod, *Monsters Inc* (2001).

*Monsters Inc* (2001) yn fwy na lau un o'r ffilmiau mwyaf poblogaeth erioed, mae'n gymeriadau o holl fath o seis, siapiau a lliwiau. Mae'n ffilm sydd di cymred angenfilod a di gwareiddio nhw ac mewn effaith di dangos y ffordd gorau ti gallu defnyddio angenfilod mewn ffurf hwyl a cyfeillgar i deuluoedd. Darn allweddol i'r ffilm yw'r swydd y prif gymeriadau yw brawychu plant ac wrth gwrs hyn yw beth sy'n dangos yr ochr tywyll achos mae'n dangos sut yr angenfilod yma galli droi mewn i greaduriaid arswydus o berson normal. Ydy'r cymeriadau yma jyst yn gweithio ond mae'n dangos bod yr ochr tywyll galli gael ei ddefnyddio mewn ffordd lle ti galli gael hwyl gyda fo.

Ffilm arall dwi eisiau sôn am yw *Gremlins* (1984). Y rheswm dwi'n sôn am y ffilm yma yw mwy na lau'r un rheswm a *Monsters Inc* (2001) ond y cyferbyniad. Dwi ddim yn siarad am y ffilm ond y cymeriadau o'r *Gremlins* (1984) achos ti'n cael yr ochr mwy positif lle ti'n dechrau gyda Gremlin sy'n edrych yn giwt ond mae 'na ochr tywyll iddyn nhw fel ti'n cael gyda *Monsters Inc* (2001) ond y gwahaniaeth yw gyda *Gremlins* (1984) mae 'na reolau sy'n dod gydag edrych ar ôl un, paid â chael nhw yn wlyb a phaid â bwydo nhw ar ôl canol nos, ac os un o'r rheolau yn cael ei thorri, yr ochr tywyll ddod mas ond yr ochr tywyll ddim yn mynd i ffwrdd ond achos y rheol o baid ag amlygu nhw i golau haul ti galli ladd nhw. Y cymeriad yma yn canolbwyntio lot ar yr ochr tywyll lot ond ar yr un pryd mae'n enghraifft dda o sut ti galli droi rhywbeth mor giwt a hapus mewn i rywbeth tywyll ac eithaf brawychus sydd beth *Monsters Inc* (2001) yn wneud i lefel mwy cyfeillgar i blant ond yr *Gremlins* yn cymrud o i lefel hollol wahanol.

Symud i fwrdd o edrych at gymeriadau wneith i ddarllen erthygl o'r enw *The Evolution of Monsters in Children's Literature* (2020) gan Lauren Christie. Yr erthygl yma yn sôn am os plant

yn cael eu hamlygu i angenfilod yn llenyddiaeth yn oed cynnar byddwch yn helpu datblygu'r dychymig nhw sydd beth mae'r monster project yn wneud gyda darlunio a hyn yw beth ddwi eisiau canolbwyntio arno.

Literary monsters must continuously adapt according to the developing maturity of the reader to ensure a consistent balance of fear and imagination. (Christie, L, 2020, t, 1)

Y dyfyniad yma ddim ond yn rhyw fath o gyflwyniad mewn i beth bydd yr erthygl yn amdano ond mae hefyd yn dangos y brwydrau mae angenfilod yn cael yn yn llenyddiaeth a hefyd y faith galluog bod angenfilod wedi aros yn mor berthnasol yn llenyddiaeth. Yr erthygl yn amdano dyle plant cael eu hamlygu i angenfilod yn llenyddiaeth i helpu datblygu'r dychymig nhw a hyn yn rhywbeth dwi'n hollol cytuno gyda, achos pam oeddwn i'n blant oedd fi di cael ei amlygu i angenfilod yr unig wahaniaeth gyda fi oedd o achos sioeau teledu fel *Doctor Who* (2005) a *Pokemon* (1997) sydd di wneud o i fi ond mae'n dal yr un peth achos gyd dwi galli gofio creu pam oeddwn i'n blant oedd angenfilod a hyn yw achos y sioeau wneith i wylio. Wrth gwrs mae'n siarad am lyfrau ac i lot o blant hyn galli gael effaith mawr arnyn nhw mae'n galli greu cofion annwyl iddyn nhw a galli helpu nhw creu'r angenfilod o'r dyfodol.

Yn gasgliad y gair cymeriadau yn cael eithaf tipyn ddwi galli siarad amdano achos y geiriau dwi di gael mas o edrych mewn i'r gair yw llyfrau, plentyn, arswydus, hwyl, dyfodol a hefyd ffilmiau. Mae 'na fwy na lau mwy i ddod gyda'r gair cymeriadau ond hyn yw geiriau ddwi di feindio ac sydd galli fod yn ddiddorol i edrych mewn i.

## **Casgliad**

Ar ôl edrych mewn i'r tri gair yma a'r cysylltiau nhw'n cael gydag angenfilod dwi di feindio holl wahanol o gwestiynau dwi galli ddefnyddio ond y cwestiwn dwi di ddewis yw sut ydy angenfilod yn darlunio/llenyddiaeth galli helpu'r dychymig a'r creadigedd plant. Y rheswm am ddewis y cwestiwn yma yw dwi'n teimlo bod pam oeddwn i'n blant wnaeth angenfilod helpu'r dychymig a chreadigedd fi mewn ffordd anferth, dwi dal yn wneud angenfilod yn fy narnau o waith ac mae o di troi mewn i ddarn mawr o fy mywyd a dwi eisiau gweld mewn i sut ydy o galli helpu plant yn yr un ffordd wnaeth o helpu fi.

## **Llyfryddiaeth:**

Cambridge Dictionary (2020) *Manwl*. Ar gael yn:

<https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/detailed> (Darllenwyd: 21 Ebrill 2020).

Cambridge Dictionary (2020) *Plentynaid*. Ar gael yn:

<https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/childish> (Darllenwyd: 21 Ebrill 2020).

Chritie, L. (2020) 'The Evolution of Monsters in Children's Literature' *Palgrave*

*Communications*, Vol.6 (1), pp. 1-7. Ar gael yn: <https://www.nature.com/articles/s41599-020-0414-7> (Darllenwyd: 9 Mai 2020).

*Gremlins*. (1984) Cyfeiriedig gan Joe Dante [Ar-Lein] Unol Daleithiau America, Warner Bros.

Jeffries, A. (2019) *Monster Project 2019* [Digital]. Ar gael yn:

[https://moonjam.com/projects/Z59z81?album\\_id=1028020](https://moonjam.com/projects/Z59z81?album_id=1028020) (Darllenwyd: 21 Ebrill 2020).

Ketnipz (2020) [Instagram] 7<sup>fed</sup> o Fai. Ar gael yn: <https://www.instagram.com/ketnipz/> (Darllenwyd: 28 Ebrill 2020).

Ketnipz, (2019) *Untitled* [Digital]. Ar gael yn: [https://www.instagram.com/p/Bylo\\_WFH8Cg/](https://www.instagram.com/p/Bylo_WFH8Cg/) (Darllenwyd: 28 Ebrill 2020).

Lovecraft, H. P. (2005) *H.P. Lovecraft Tales*. Efrog Newydd: The Library of America.

Lovell, C. (N/A) *Euryale* [Inc & Paint]. Ar gael yn:

<https://www.christopherlovell.com/gallery?lightbox=dataitem-k42lua51> (Darllenwyd: 7 Mai 2020).

*Monster Inc.* (2001) Cyfeiriedig gan Pete Docter [Ar-Lein] Unol Daleithiau America, Buena Vista Pictures Distributions.

Shelly, M. (1994) *Frankenstein*. Dover Thrifts Editions. Efrog Newydd: Dover Publications.

Siop Ketnipz (2020) Ar gael yn: <https://www.ketnipz.com/> (Darllenywd: 28 Ebrill 2020).

The Monster Project (2020) Ar gael yn: <https://themonsterproject.org/> (Darllenwyd: 21 Ebrill 2020).